


Berfau!

Darlith 2 Badd 1

Jeni Price

Ionawr 21ain 2020

Heddiw, byddwn ni'n...

- Adolygu Rhannau Ymadrodd
- Trafod Berfau – sicrhau ein bod yn defnyddio'r ffurfiau cywir!

Rhannau Ymadrodd



Mewn grwpiau o 3, trefnwch y cardiau i dair colofn ystyrlon – oren, melyn a glas


Cardiau melyn – enw'r rhan ymadrodd

Cardiau oren – disgrifiad o'r rhan ymadrodd

Cardiau glas – enghraifft o'r rhan ymadrodd

Berfau!

- Beth ydyn nhw?
- Pam maen nhw'n bwysig?



Adolygu - Beth ydy'r gwahaniaeth rhwng berf a berfenw?



Bwyta

Bwytais

Berfenw

Berf

Bwyta = BERFENW

Dim ond dangos gweithred a wna ‘bwyta’.



Berfenw = enw ar y weithred

Bwytais = BERF



Mae ‘bwytais’ hefyd yn dangos **gweithred,** ond mae hefyd yn cynnig ychydig mwy o **fanylion** trwy’r **terfyniad ‘ais’:**

Mae berfau felly’n dweud 3 pheth wrthym ni:

1. beth sy’n cael ei wneud	BETH?	
2. pwy sy’n ei wneud	PWY?	
3. pryd mae’n cael ei wneud	PRYD?	**ddoe**

ADOLYGU ...
BERF NEU FERFENW?



- anghofio
- bydd
- cofrestru
- credaf
- dylent
- ewch
- gorflino

- gwariais
- gwelais
- gwrando
- gwybod
- gwyddai
- marcio
- mynd

- penderfynodd
- rhedeg
- rhedwn
- talu
- ymlacio
- ysgrifennaf
- cysgu

BETH SY'N CAEL EI WNEUD?

Rhan gyntaf y ferf sydd yn rhoi'r wybodaeth yma i ni …

CANAIS	**CAN(U)**+AIS
PENDERFYNODD	**PENDERFYN(U)** +ODD
DARLLENON	**DARLLEN** + ON

PWY SY'N EI WNEUD?

Y terfyniad fydd yn rhoi'r wybodaeth yma i ni …

Mae chwe 'pherson' gwahanol i'r ferf …

person 1af unigol	**FI**
2il berson unigol	**TI**
3ydd person unigol	**EF / HI / JOHN**
person 1af lluosog	**NI**
2il berson lluosog	**CHI**
3ydd person lluosog	**NHW**

PRYD MAE'N CAEL EI WNEUD?

Y <u>terfyniad</u> fydd yn rhoi'r wybodaeth yma i ni hefyd.

Mae nifer o amseroedd gwahanol i'r ferf, yn cynnwys …



<u>Yr amherffaith</u> rhywbeth oedd yn arfer digwydd yn aml yn y gorffennol ond bellach mae e wedi gorffen.

<u>Y gorffennol</u>
rhywbeth sydd wedi digwydd unwaith yn y gorffennol, mae'r weithred ar ben.

<u>Y presennol</u>
rhywbeth sy'n digwydd nawr, naill ai fel gweithred unigol neu rywbeth sy'n arfer digwydd ac yn dal i ddigwydd.

Y dyfodol
rhywbeth fydd yn digwydd yn y dyfodol h.y heb ddigwydd eto.

BERF NEU FERFENW?
PA UN DDYLWN I DDEFNYDDIO?

Byddwn yn defnyddio berfau neu ferfenwau mewn brawddeg mewn un o ddwy ffordd:

naill ai


- yn eu ffurfiau cwmpasog — *Mae Huw wedi ennill*

  neu

- yn eu ffurfiau cryno — *Enillodd Huw*

SUT YDW I'N DEFNYDDIO BERFENW?

Mae'n rhaid defnyddio ffurf ar y ferf 'bod' gyda berfenw a dyma sy'n rhoi ffurf GWMPASOG y ferf i ni, sef y ffordd hir o ddweud rhywbeth. Yn aml y ffordd hir (CWMPASOG) fyddwn ni'n ei ddefnyddio ar lafar wrth siarad e.e.



BETH YW FFURF GWMPASOG?

- Ffurf gwmpasog yw'r ffordd hir o ddweud rhywbeth
- Mae'n rhaid defnyddio ffurf ar y ferf 'BOD' gyda berfenw
- Mae gwahanol amser i'r ferf 'BOD' yn cynnwys – presennol, dyfodol, gorffennol ac amherffaith

Y FERF 'BOD'

Gorffennol (perffaith)	Amherffaith	Presennol	Dyfodol
Rydw i wedi	Roeddwn i	Rydw i	Byddaf i
Rwyt ti wedi	Roeddet ti	Rwyt ti	Byddi di
Mae e / hi wedi	Roedd e / hi	Mae e / hi	Bydd e / hi
Rydyn ni wedi	Roedden ni	Rydyn ni	Byddwn ni
Rydych chi wedi	Roeddech chi	Rydych chi	Byddwch chi
Maen nhw wedi	Roedden nhw	Maen nhw	Byddan nhw

CYFIEITHWCH RHAIN GAN DDEFNYDDIO'R FFURFIAU CWMPASOG…

I walked to school every day when I was a child.

Roeddwn i'n cerdded i'r ysgol bob dydd pan oeddwn yn blentyn.

She has won the Eisteddfod chair once.

Mae hi wedi ennill cadair yr Eisteddfod unwaith.

Edrychwch ar y geiriau mewn print coch a glas – beth ydych chi'n sylwi?

I will write that essay tonight.

Bydda i'n ysgrifennu'r traethawd heno.

They have marked all the books.

Maen nhw wedi marcio'r llyfrau i gyd.

BETH YDYCH CHI'N SYLWI?

Gyda'r ffurfiau cwmpasog, byddwn ni'n defnyddio BERFENW bob tro.

Fydd gwrthrych y ferf (y person/peth sy'n 'dioddef' y weithred) DDIM YN TREIGLO gyda'r ffurfiau cwmpasog.

Mae hi wedi ennill cadair yr Eisteddfod unwaith.

Enillodd hi gadair yr Eisteddfod unwaith.

BETH YW BERF GRYNO?

BERF GRYNO yw'r ffordd fyrrach o ddweud rhywbeth. Ystyriwch y ddwy frawddeg ganlynol:

Mae Siôn wedi darllen llyfr.

Mae ystyr rhain yn union yr un fath. ***Cwmpasog*** yw'r cyntaf. ***Cryno*** yw'r ail.

Darllenodd Siôn lyfr.

BETH YW'R GWAHANIAETH RHWNG BERF GRYNO A BERF GWMPASOG?

Rydym yn defnyddio y ffurfiau cwmpasog mewn sefyllfaoedd ble rydym am i'r iaith fod yn fwy anffurfiol, yn enwedig ar lafar.


Mae'r berfau cryno yn fwy ffurfiol, ac felly, maen nhw'n gweddu i sefyllfaoedd ffurfiol yn enwedig rhai ffurfiau ysgrifennu e.e traethodau ac aseiniadau Prifysgol.

YMARFER.
YDYCH CHI'N GWYBOD PA DERFYNIADAU SY'N CYFATEB I BA AMSER?


Llinell Amser Berfau ...

Y Gorffennol — **Y Presennol** — **Y Dyfodol**

Yr Amherffaith



-ais i
-aist ti
-odd e -odd hi
-on ni
-och chi
-on nhw



-a i / -af i
-i di
-iff e / -a ef -iff hi / -a hi
-wn ni
-wch chi
-an nhw

-wn i
-et ti
-ai e/hi
-em ni
-ech chi
-en nhw

Cofiwch: Dyma'r terfyniadau ar gyfer y berfau rheolaidd – fydd pob berf ddim yn dilyn y patrymau hyn. Y berfenwau afreolaidd mwyaf adnabyddus ydy **mynd, dod, cael a gwneud**.

Canolfan Peniarth


TERFYNIADAU'R BERFAU CRYNO RHEOLAIDD

Presennol/ Dyfodol	Gorffennol	Amherffaith
Pryn – AF I Pryn – I DI Pryn – A/IFF/ITH E/HI Pryn – WN NI Pryn – WCH CHI Pryn – AN NHW	Pryn – AIS I Pryn – AIST TI Pryn – ODD E/HI Pryn – OM NI Pryn – OCH CHI Pryn – ON NHW	Pryn – WN I Pryn – ET TI Pryn – AI E/HI Pryn – EM NI Pryn – ECH CHI Pryn – EN NHW
Pryn - IR	Pryn - WYD	Pryn - ID

Peidiwch â phoeni am y rhain nawr – dewn ni nôl atyn nhw …

Mae'n RHAID dysgu'r terfyniadau yma

YMARFERION …



Ymarferion Darlith
9 Berfau

FFURFIO'R GOFYNNOL …

I ffurfio cwestiwn, rhaid i ni ychwnaegu **A** o flaen y ferf. Mae'r **A** yn achosi treiglad meddal.

A <u>dd</u>arlleni di?

Gallwn ni hepgor yr A, ond bydd y treiglad yn aros …

Ddarlleni di?

Tasg: Meddyliwch am **bum** cwestiwn y gallech chi eu defnyddio yn y dosbarth, sy'n dechrau gyda berf – ceisiwch ddefnyddio amserau gwahanol y ferf.

FFURFIO'R NEGYDDOL …

I ffurfio'r negyddol rhaid i ni ychwanegu **Ni** o flaen y ferf. Mae **Ni** yn achosi treiglad meddal mewn berfau sy'n dechrau â **d, g, b, ll, m, rh** a threiglad llaes mewn berfau sy'n dechrau â **t,c, p.**

Ni lwyddan nhw Ni welwn ni Ni chlywaf i

Eto, gallwn ni hepgor y **Ni** ond bydd y treiglad yn parhau, ac mae angen ychwanegu 'ddim' …

Lwyddan nhw ddim Welwn ni ddim Chlywa i ddim

TROWCH Y CANLYNOL I'R NEGYDDOL …

- Gwela i di 'fory.
- Cymerwn ni'r tocynnau.
- Pryniff hi'r gwerslyfr.
- Canwn ni heno.
- Bwyti di swper.
- Rhoddwn ni arian i'r gronfa
- Dangosiff e i chi.

COFIWCH …

Bydd gwrthrych berfau cryno cadarnhaol yn treiglo'n feddal.

Darllenaf i **l**yfr.

Prynwn ni **b**edwar tocyn.

Cyrhaeddwn ni **g**opa'r Wyddfa cyn 10 o'r gloch.

OND

Ddarllenaf i ddim llyfr

Phrynwn ni ddim pedwar tocyn

TREIGLO'R GWRTHRYCH …

Cywirwch y gwallau, lle bo angen …

- Ysgrifennaf i llythyr atoch chi i gadarnhau'r trefniadau.
- Tafliff e pêl fawr goch.
- Trefnwn ni cyngerdd i ddathlu canmlwyddiant yr ysgol.
- Gyrri di car mawr crand.
- Prynan nhw popeth o siopau crand.
- Derbyniwn ni graddau gwych yn yr arholiadau eleni.

YMARFERION …

Newidiwch y berfau i ffurfiau cryno'r ferf:

1. Dydw i ddim yn gweld pwrpas i'r llyfr
2. Mae e'n cael llawer o hwyl
3. Ydy hi'n cael dod gyda ni?
4. Ydyn nhw'n gweld y ddrama?
5. Dydych chi ddim yn cael gyrru.
6. Maen nhw'n yfed y llaeth i gyd.
7. Dydw i ddim yn credu'r peth.

ADOLYGU I ORFFEN CYFIEITHWCH …

- I'll wait
- I'll keep
- They walked
- She showed
- You'll read (ti)
- You'll arrive

- Arhosa i
- Cadwa i
- Cerddon nhw
- Dangosodd hi
- Darlleni di
- Cyrhaeddwch chi

BERF / BERFENW? YSGRIFENNWCH FRAWDDEG YN CYNNWYS Y GEIRIAU HYN.

gwisgo

gwisgai

tanlinellwch

arsylwais

dweud

darllena

ymhelaethu

llwyddem

dadansodda

cerddan

llwyddaist

gwylio

ysgrifennu

cyfeiria

gwrandawaf

arsylwi

canaf

ADOLYGU …

TROWCH Y GEIRIAU SYDD MEWN PRINT ITALAIDD YN FERFAU CRYNO …

1. *Mae'r athro wedi rhoi* gwers rydd i ni.
2. *Ro'n i'n cerdded* bob cam i'r ysgol pan oeddwn i'n blentyn.
3. *Roedden ni'n teimlo* cywilydd bob tro ar ôl dweud celwydd.
4. Yn sydyn, *roedd y disgybl wedi llewygu* yn y dosbarth.
5. *Roeddet ti'n clywed* y Pennaeth yn dweud y drefn wrth Jac bob bore.
6. *Roedden ni'n cael* dau docyn i gêm Cymru v. Lloegr bob blwyddyn.
7. Mae'r myfyrwraig wedi llwyddo yn yr arholiad.

